SUL CYFFREDIN 25

JOB 42:1-6, 10-17; SALM 34:1-8 [19-22];
HEBREAID 7:23-28; MARC 10:46-52

● **Gweddi agoriadol**
Da cael bod yma
yn dy dŷ, Arglwydd,
yn cyfarfod â theulu,
yn rhannu cymdeithas,
yn dod â'n hoffrwm
o wasanaeth a moliant.
Da cael bod yma
yn dy dŷ , Arglwydd.

● **Moliant**
O, na fyddai eraill yn nabod dy enw
a'i gyhoeddi yn eu bywydau,
fel y caent hyd i'r graig
y naddwyd ein ffydd ohoni.

O, na fyddai eraill yn nabod dy gariad
a'r rhyddid sy'n ei gysgod,
fel y caent deithio at y groes
a chanfod eu gobaith ynot ti.

O, na fyddai eraill yn nabod cyffyrddiad
dy Ysbryd yn eu bywydau,
a chanfod y ffynnon
y mae'r dŵr bywiol yn llifo ohoni.

O, na fyddai eraill yn dy nabod di
fel y gwnawn ni
yn ein calonnau a'n bywydau,
a chanfod llawnder, iachâd a heddwch.

● **Cyffes**
Pan fo ffordd ein byw
yn methu adlewyrchu'r Duw a wasanaethwn,
maddau i ni.

Pan fo'r cariad a rown
yn disgwyl taliad yn ôl,
maddau i ni.

Pan fo'r geiriau a lefarwn
yn achosi i rywun arall faglu,
maddau i ni.

Trugarha; ailgynnau
fflam ffydd ynom
a thrwy dy Ysbryd
nertha ni.

● Diolch

Arglwydd grasol,
ynot ti canfyddwn faddeuant
am ein pechod,
dim ond i ni ofyn.
Ynot ti canfyddwn yr iacháu
a geisiwn,
dim ond i ni ofyn.

Ynot ti canfyddwn y rhesymau
dros gredu,
dim ond i ni ofyn.
Ynot ti canfyddwn yr un
sy'n ein gollwng yn rhydd,
dim ond i ni ofyn.

Arglwydd grasol,
sefi wrth ddrws
ein calon,
a churo,
ac aros
i gael dy wahodd i mewn.

Diolch i ti am ateb
dim ond i ni ofyn.